# LC1513

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer talu lwfansau i aelodau o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru ynghyd â darpariaeth ar gyfer ad-dalu rhai treuliau penodol a dynnwyd gan aelodau. Mae’r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae Rheoliad 12(4)(a) yn hepgor y cyfeiriad at aelod yn cael ei rhannol atal dros dro. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Rheoliad 41(6) yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") fel yr oedd yn ofynnol gan y Pwyllgor hwn yn ei adroddiad dyddiedig 30 Tachwedd 2004 (LC961). Fodd bynnag, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio, yn unol ag LC961, at reoliadau 8(6), 10(a) ac 16(a) o Reoliadau 2004, tra bo’r testun Cymraeg yn cyfeirio at reoliadau 7 a 15(4). Yn ogystal, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio, eto yn unol ag LC961, at y geiriau "gyfrifoldebau a’i ddyletswyddau" tra bo’r testun Cymraeg yn cyfeirio at "gyfrifoldebau a dyletswyddau". [Rheol Sefydlog 11.7(V)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain sy’n addas i’w cywiro drwy gyfrwng

Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mawrth 2007